


Cwis CALCH




**Allech chi ateb y cwestiynau'n gywir drwy ddefnyddio ein gwefan?
Mae'n bosibl dod o hyd i bob un o'r atebion ar dudalennau
'Gwybodaeth am CALCH' a 'Darganfod' ar ein gwefan. Pob lwc.**

1. Beth yw Twffa?
2. Pa anifeiliaid sy'n byw yn yr odynnau ac angen eu diogelu?
3. Beth ddigwyddodd i David Davies?
4. Ar gyfer beth y defnyddir calch brwd?
5. Enwch fath o odyn y gellir dod o hyd iddi yn Chwarel Herbert?
6. Allwch chi enwi math arall o odyn y gellir dod o hyd iddi yn y chwarel?
7. Beth yw'r toddyn cyffredin?
8. Pam ei fod yn hoffi tyfu yn y chwarel?
9. Beth oedd Terfysgoedd Beca?
10. Sut oedd odyn dynnu yn gweithio?
11. Beth yw nod prosiect CALCH?
12. Cywir ynteu anghywir, a ellir defnyddio calch i wneud sebon?
13. Beth oedd enw'r ffordd gynharaf ar draws y mynydd?
14. Pwy roddodd y chwarel ar brydles ym 1954?
15. Beth yw alcali?



Atebion



1. Dyddodyn calsiwm carbonad (CaCO_3) yw twffa sy'n cael ei alw'n Galsit hefyd. Wrth i ddŵr olchi drwy'r tipiau gwastraff yn y chwarel a chyrraedd yr wyneb, mae'r dŵr alcalin yn adweithio gyda'r carbon deuocsid o'r aer ac mae'r calsiwm hydrocsid yn troi'n galsiwm carbonad soled.
2. Ystumod sy'n byw yn yr odynnau yn chwarel Herbert.
3. Bu farw David Davies yn 22 mlwydd oed pan ddychrynodd ei geffyl a'i daflu oddi tan olwyn ei gert a oedd yn llawn calch. Rydym yn gwybod hyn o'r gofadail a godwyd er cof amdano ar ochr y ffordd.
4. Defnyddiwyd calch brwd fel gwellhaur pridd neu 'wraith'. Roedd ei pH alcalin yn niwtraleiddio pridd asidig, a oedd golygu ei bod yn bosibl amaethu pridd yr ucheldir, gan gynyddu amrywiaeth cnydau a chnwd.
5. Mae tri math, sef odynnau Dros Dro, Fflêr a Thynnu.
6. Fel yr uchod
7. Planhigyn pryfysol siâp seren yw'r toddyn cyffredin, mae ganddo ddail gludiog gwyrdd golau i ddal pryfed.
8. Mae'n hoffi tyfu yn y chwarel oherwydd yr amgylchedd gwlyb ac alcalin
9. Roedd Terfysgoedd Beca yn gyfres o derfysgoedd a ddigwyddodd rhwng 1839 a 1843 pan godwyd tollau ar ffermwyr i gludo eu nwyddau (gan gynnwys calch) gan adeiladwyr ffyrdd (fel yr ydym ni'n ei dalu i groesi Pont Hafren). Roedd y tollau mor uchel nes i'r ffermwyr benderfynu gwrthryfela. Gwisgai'r ffermwyr blin ddillad merched a dinistrio'r tollbyrth.
10. Mewn Odynnau Tynnu, roedd tanwydd a chalchfaen yn cael eu cymysgu mewn haenau. Cynlluniwyd yr odynnau hyn i gael eu gweithredu'n barhaol (ar sail dymhorol), ond nid dyma sut y bydden nhw'n cael eu defnyddio o reidrwydd. Maen nhw wedi'u hadeiladu o gerrig, yn erbyn (allan o) glawdd naturiol fel arfer, gyda'r twll tanio gyfwyneb â llawr y chwarel.
11. Mae CALCH yn atgyweirio rhai o'r adeiladweithiau sydd wedi goroesi yn Chwarel Herbert, ac mae'n datblygu llwybrau hunan dywys o gwmpas y safle i annog ymwelwyr. Mae'r prosiect hefyd yn ymchwilio i hanes y diwydiant calch i ddarganfod a dathlu ei gysylltiadau â chymunedau lleol.
12. Cywir, gellir ei ddefnyddio i wneud sebon.
13. Enw'r ffordd gynharaf ar draws y mynydd oedd 'Heol y Bryn' (sydd wedi'i dangos mewn lliw glas), ac sydd weithiau'n cael ei galw'n 'Ffordd Rufeinig' erbyn hyn.
14. Ym 1954, rhoddwyd y chwarel ar brydles gan Stad Cawdor. Ceisiodd y prydleswyr werthu'r chwareli heb ganiatâd y stad i "Midas Quarries Ltd."
15. Alcali yw 'halen' metel (calsiwm yn yr achos hwn) wedi'i hydoddi mewn dŵr - y gwrthwyneb i asid. Mae gan alcalïau pH uwch na saith, tra bo asidau â pH sy'n is na saith. Gall asidau ac alcalïau losgi



Canolfan y
Mynydd Du
Black Mountain
Centre



Cronfa Datblygu
Cynaliadwy

Sustainable
Development Fund



Erwip & Cytuno: Builwedd y'n ein dyfodol
Coŵn Ddiogel: The Stable Group
Europe & Wales Investing in your future
European Regional Development Fund



BRECON BEACONS
TRUST



ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust
01538 823121
www.dyfedarchaeology.org.uk



BRECON BEACONS
NATIONAL PARK

Amgueddfa
Genedlaethol
y Glannau
STORI DIWYDIANT A
BLAENGAREDD CYMRU

National
Waterfront
Museum
WALES' STORY OF
INDUSTRY & INNOVATION



FFOREST FAWR
GEOPARK

